**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: LF/KS/0583/15

Christine Chapman AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

10 Mehefin 2015

Annwyl Christine,

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

Ysgrifennaf yn dilyn y llythyr a gawsoch gan Jocelyn Davies, AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yn nodi rhai o'r materion ariannol efallai yr hoffai'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol eu hystyried wrth iddo graffu ar y Bil. Meddyliais efallai y byddai'n ddefnyddiol i mi egluro rhai o'r pwyntiau a godwyd er mwyn llywio eich ystyriaethau pellach.

Mae nifer o bryderon y Pwyllgor Cyllid yn adleisio pryderon y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn 2013, sef *Dyfodol ein gorffennol*. Er enghraifft, cododd y Pwyllgor Cyllid amheuon ynghylch effaith ariannol y Bil ar awdurdodau lleol, gan ddyfynnu pryderon a fynegwyd gan ymgynghoreion, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro, yn 2013. Codwyd pwynt tebyg o ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent pan ymddangosais ger bron eich pwyllgor ar 4 Mehefin.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i bwysleisio bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y cynigion a gyflwynwyd yn 2013 a darpariaethau'r Bil.

Gwrthodwyd rhai o gynigion yr ymgynghoriad gan fod ymatebwyr o'r farn y byddent yn arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol heb unrhyw fuddiannau gwirioneddol, megis system ffurfiol ar gyfer ardystio na fyddai angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y gwaith. Diystyrwyd cynigion eraill gan fod awdurdodau cynllunio lleol yn pryderu y gallent o bosibl roi diogelwch asedau hanesyddol yn y fantol, megis uno'r drefn ar gyfer caniatâd ardal gadwraeth a'r drefn ar gyfer caniatâd cynllunio.

Felly, credaf fod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn llygad ei le wrth ddod i'r casgliad na fydd y Bil yn arwain at gostau ychwanegol uchel i awdurdodau lleol.

Serch hynny, fel y nododd Jocelyn Davies, bydd costau posibl i awdurdodau lleol yn deillio o'u gallu i arfer pwerau disgresiwn newydd yn y Bil, gan gynnwys estyn cwmpas y gwaith brys i adeiladau rhestredig a chyflwyno cytundebau partneriaeth dreftadaeth. Mynegodd y Pwyllgor Cyllid bryder penodol am y costau a'r arbedion tebygol sy'n gysylltiedig ag

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

awdurdodau lleol yn ymrwymo i gytundebau o'r fath. Wrth gwrs, trefniadau gwirfoddol yw'r trefniadau hyn a'r eithriad yw y bydd buddiannau cost hirdymor ac, yn bwysicach na hynny, fuddiannau cadwraeth gwirioneddol.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn gyda'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jocelyn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yr eiddoch yn gywir,

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism